Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	23 Tachwedd 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Diweddariad ar y cynnydd gyda'r Datganiad Cyfrifon 2021/22.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Darparu diweddariad ar yr archwiliad o ddrafft Datganiad Cyfrifon 2020/21.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi dirprwyo cyfrifoldeb i gymeradwyo'r cyfrifon wedi'u harchwilio, y gobaith oedd y byddai'r rhain wedi cael eu cyflwyno i'r cyfarfod ar 23 Tachwedd 2022. Nid oedd hynny'n bosib ac mae'r adroddiad hwn yn egluro'r prif reswm dros hynny.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r sefyllfa fel y cyflwynir yn yr adroddiad diweddaru hwn.

4. Manylion yr adroddiad

Cefndir

Mae dyletswydd statudol ar y cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifo a gymeradwyir. Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y cyngor. Mae'r rôl hon wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Bellach mae'r cyfrifon drafft wedi eu cwblhau ac wedi'u

llofnodi gan y Pennaeth Cyllid ar 27 Mehefin (2 Awst y llynedd). Mae'r cyfrifon drafft wedi bod ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn a hefyd wedi bod ar gael i'r cyhoedd i'w harchwilio rhwng 15 Gorffennaf a 11 Awst.

Fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn nodi, oherwydd effaith parhaus Covid, y byddai terfynau amser statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon Drafft a chyfrifon wedi'u Harchwilio yn cael eu hymestyn fel y nodwyd yn y tabl isod. Cymerodd CSDd y penderfyniad cynnar i gyhoeddi rhybudd (gweler isod) i nodi na fyddwn yn anelu at y dyddiad cau cynnar statudol ond y byddai'n cyflawni'r dyddiadau cau diwygiedig. Cymerwyd y penderfyniad hwn mewn ymgynghoriad ag Archwilio Cymru ac roedd modd iddyn nhw asesu eu gallu i gwblhau'r gwaith archwilio angenrheidiol.

Mae "Rheoliad 10(1) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Sir Ddinbych yn arwyddo ac yn dyddio'r datganiad cyfrifon, ac yn ardystio eu bod yn cynrychioli safbwynt cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r datganiad yn gysylltiedig â hi ac o incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Yn ôl y Rheoliadau, mae rhaid i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2022.

Mae terfynau amser statudol 2020/21 i'w gweld yn y tabl isod ynghyd â'r terfynau amser estynedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd parhad y pandemig.

Eitem	***Dyddiad Cau Statudol***	***Dyddiad Cau Estynedig***
Datganiad Cyfrifon Drafft	31 Mai 2022	*31 Awst 2022*
Datganiad Cyfrifon wedi'i Archwilio	31 Gorffennaf 2022	*30 Tachwedd 2022*

Nid yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi arwyddo ac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 oherwydd effaith Covid-19 ar adnoddau staff a gwaith ychwanegol o gwblhau'r cyfrifon eleni, a bydd yn gweithio o fewn y terfynau amser estynedig."

Sefyllfa Bresennol

Ar y cyfnod hwn roedden ni'n dal i obeithio cyflwyno'r Cyfrifon Terfynol i'r pwyllgor. Fodd bynnag dros y misoedd diwethaf mae problem newydd wedi achosi oedi. Mae Archwilio Cymru wedi darparu'r crynodeb canlynol o'r sefyllfa:

"Mae Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth LASAAC ar gyfer Cyfrifeg Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) angen asedau Isadeiledd i gael eu mesur yn defnyddio sail mesur cost hanesyddol a'u cario ar gost dibrisiad hanesyddol.

Mae archwilwyr Llywodraeth Leol yn Lloegr wedi codi pryderon ynglŷn â gwariant dilynol ar asedau Isadeiledd. Pan mae cyfansoddiad o ased yn cael ei newid, mae'r cod yn disgwyl i'r cyfanswm cludo ar gyfer yr hen gyfansoddiad i beidio â chael ei gydnabod er mwyn osgoi cyfri ddwywaith a bydd y cyfansoddiad newydd yn cael ei adlewyrchu yn y cyfanswm cludo ar gyfer yr ased Isadeiledd.

Oherwydd anawsterau ymarferol o roi'r cyfansoddiad cyfrifo ar waith ar gyfer cydnabod a pheidio ag adnabod cyfansoddiadau wedi'u newid ar gyfer asedau Isadeiledd mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad i asesu gwerth llyfr net y cyfansoddiad wedi'i newid ac wedi trin y cyfanswm ar gyfer y cyfansoddiad sydd wedi'i newid fel sero. Y rheswm dros hyn yw bod y cyfansoddiad sydd wedi'i newid yn cael ei ystyried i fod wedi'i ddarfod yn llwyr ar y pwynt y mae'n cael ei newid. Y pryder a gododd yr archwilwyr yw bod yna bosib diffyg tystiolaeth i gefnogi'r dybiaeth hwn. O ganlyniad, a heb unrhyw ddatrysiad, mae yna berygl y byddai datganiadau ariannol yr awdurdod lleol yn gymwys yn hyn o beth.

Rôl Bwrdd Cod Cyfrifeg Awdurdod Lleol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth LASAAC yw ystyried i ba raddau y dylai Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fod yn berthnasol i awdurdodau lleol ac i addasu a dehongli safonau cyfrifeg i fynd i'r afael â'r cyd-destun sector cyhoeddus. Hyd yma dydi Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth LASAAC ddim wedi gallu dod o hyd i ffordd ymlaen a fydd yn bodloni pryderon archwilio a'r gofyniad i ddefnyddio dull o safon uchel i adrodd ar y sefyllfa ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar ddiystyru statudol mewn perthynas â'r broblem hon tra bod ateb parhaol yn cael ei ddatblygu o fewn y Cod, a fydd yn gwella'r broses o adrodd ar y sefyllfa ariannol yn y maes hwn.

O dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Awdurdod Diogelu Annibynnol) 260, mae angen i Archwilio Cymru i gyfathrebu materion perthnasol i'r archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon i'r rheiny gyda chyfrifoldeb llywodraethu, lle mai'r Cyngor yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Wedi trafod y mater ased Isadeiledd gydag Archwilio Cymru eu safbwynt nhw yw nad oes modd rhoi safbwynt ar y datganiadau ariannol nes bod y broblem wedi cael ei datrys. Felly, bydd cymeradwyaeth ffurfiol o'r Cyfrifon yn cael eu gohirio tan ddyddiad arall pan fydd y broblem wedi'i datrys."

Yn amlwg dyma siomedigaeth fawr er mae'n gwbl ddealladwy. O safbwynt y gwasanaeth dylid nodi'r oedi parhaus i gymeradwyo'r cyfrifon mewn modd amserol. Yn arbennig effaith yr oedi ar y gallu i gyflawni gwaith arall fel:

- Cefnogi'r broses adrodd ar y gyllideb cyfalaf
- Adnabod Arbedion a rhoi gwybod am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Cefnogaeth sydd ei angen ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai - Cynllun Busnes Stoc Dai
- Unrhyw welliannau gwasanaeth i brosesau ariannol
- Ceisiadau am wybodaeth / adroddiadau gan bwyllgorau
- Prosiect System Ariannol
- Yr angen i gyflawni o leiaf rhai o'r swyddogaethau hyn sydd hefyd yn effeithio ar allu'r gwasanaeth i ymateb i ymholiadau gan AC ynghylch y Datganiad Cyfrifon.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau uniongyrchol ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag mae gan y gwasanaeth y staff sydd ei angen ar gyfer cymeradwyo cyfrifon Medi, felly byddai rhagor o oedi yn y dyfodol yn golygu costau ychwanegol er mwyn lleihau'r effaith ar waith arall wedi'i amlygu yn Adran 4.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae gweithdrefnau a phrosesau'r cyngor sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff barn broffesiynol ei cheisio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu'r cyfrifon yn gadarn. Er ei fod yn siomedig bod yr amserlen wedi methu eto eleni mae'n braf nodi bod yr endid sengl drafft o'r Datganiad Cyfrifon wedi'u paratoi o fewn yr amserlenni gwreiddiol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai'r cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Tachwedd heb hysbysiad pellach - ar hyn o bryd mae'n cael ei lunio er mwyn ei gyflwyno mewn da bryd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus

(Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor, a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018.